

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Eirian Davies (Cefn Meiriadog) ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Er nad oedd wedi mwynhau iechyd ers peth amser, eto daeth y diwedd yn annisgwyl. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gareth a'r plant – Anwen ac Arwel, a'r teulu i gyd, gan weddio y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Parhawn i gofio am Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun. Hyderwn y bydd y gofal da y mae'n ei dderbyn yn arwain at adferiad iechyd buan. Da clywed fod Hywel Wyn Davies (Cefn Berain) wedi cael dod adref erbyn hyn – anfonwn ein cofion ato yntau a'r teulu, gan ddiolch am eu gofal a'u hymroddiad. Bu Mair Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yn ddiweddar hefyd. Yr ydym yn ei hamgylchynu hithau yn ein gweddiau gan hyderu y caiff adferiad iechyd llwyr a buan. Mae sawl un arall o'r ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn hefyd – brysiwch i wella bawb ohonoch!

DVD – Ymweliad Côr Synod Mizoram

Cawsom benwythnos i'w gofio yng nghwmni Côr Synod Mizoram yn ôl ym mis Gorffennaf 2014. Os oes rhai ohonoch yn dymuno cael DVD o'r digwyddiad – sy'n cynnwys yr oedfa arbennig gafwyd yn y bore, y cymdeithasu yn y Ganolfan dros ginio a'r dawnsio a'r canu bythgofiadwy a gafwyd – cysylltwch â Mair i gael copi, os gwelwch yn dda. £3.00 yw pris y DVD. Bydd yr arian yn cael ei gyfrannu i Apêl Zaia, sef cronfa a sefydlwyd gan Eilir O. Griffiths fydd yn rhoi gwersi piano hen nodiant i'r plant sy'n dangos addewid ym Mizoram, gyda'r nod o hyrwyddo hen nodiant yn y wlad. Bydd £3.00 yn talu am 6 gwerau piano yno.

I ddo

- **CYFARFOD GWEDDI DECHRAU'R FLWYDDYN** yng Nghefn Meiriadog nos Fawrth, Ionawr 20fed am 7.00.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yn Llanefydd nos Iau, Ionawr 22ain am 7.30.
- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 30ain–Chwefror 1af.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 6ed–8fed. Mae mwy o fanylion ar gael yn yr eglwysi erbyn hyn – cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled.
- **LLANW** – Mae'r amser wedi dod i archebu lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad – yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed–10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae taflenni gwybodaeth ar gael yn yr Ofalaeth – os nad oes rhai ar gael yn eich eglwys chi, gofynnwch i Mair am rai, os gwelwch yn dda, neu ewch i'r wefan: www.llanw.org.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Ionawr 2015

Darlleniad y Dydd

Luc 2:25-33

(BCND tud.63 / BCN: tud.58)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Er ei bod braidd yn hwyr, peth braf iawn yw cael dymuno blwyddyn newydd fendithiol i bawb ohonoch! Ac wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn sydd ar gychwyn, gall pob Cristion wneud hynny'n ddisgwylgar oherwydd yr hyn a fynegir am Iesu yn Effesiaid 3:12 – 'Ynddo ef, a thrwy ffydd ynddo, yr ydym yn cael dod at Dduw yn eofn a hyderus.' Beth bynnag a ddaw i'n rhan eleni, os ydym wedi dod i adnabod Iesu fel Gwardwr ac Arglwydd, mae gennym sylfaen gadarn i ddod at Dduw unrhyw bryd mewn hyder gostyngedig. Boed hynny mewn gweddi, mawl neu ddiolchgarwch, mae haeddiant Iesu yn rhoi mynediad i ni fel plant at ein Tad Nefol. Diolchwn i Dduw am aberth y Groes sydd wedi gwneud y fraint anferth hon yn bosib i bechaduriaid annheilwng fel ni.

Wrth i blant ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y gwyliau, dwi'n siŵr mai un o'r cwestiynau cyntaf a gawsant gan eu ffrindiau oedd "beth ges di fel anrheg Nadolig?" I mi, un o'r anrhegion mwyaf annisgwyl eleni oedd bwrdd adar! Er mai prin iawn ydi fy ngwybodaeth am adar, mae edrych arnynt yn gwibio hwnt ac yma'n eithriadol o ddifyr. Ychydig ddyddiau wedi'r Nadolig, dyma fynd ati i osod y bwrdd yn yr ardd a rhoi rhyw fymryn o hadau arno. O fewn diwrnod ymddangosodd mwy nag un aderyn i brofi'r bwyd ar eu cyfer. Ond o hynny ymlaen, ddiwrnod ar ôl diwrnod doedd dim golwg ohonynt. Y rheswm pam y daeth cymaint ohonynt ar y diwrnod cyntaf oedd oherwydd ei bod wedi rhewi'n galed. Pan ddiflannodd y rhew, diflannodd yr angen iddynt fwyta'r hadau ar y bwrdd adar! Tybed ai dyna'r ydym ni'n tueddu ei wneud hefo Duw? Troi ato pan mae pethau'n ddifrifol yn unig, a pheidio talu sylw iddo'r rhan fwyaf o'r amser? Wrth gwrs, mae Duw trwy Iesu Grist yn ein cymell i ddod ato mewn pob math o argyfwng, ond mae'r Beibl hefyd yn ein hatgoffa o werth perthynas glos â Duw trwy'r amser. A dweud y gwir, mae'r Beibl yn defnyddio darluniau o wledd a chyfoeth i gyfleu'r hyn sy'n dod i ran y Cristion am byth oherwydd yr hyn wnaeth Iesu. Digonedd o gariad, nerth trwy'r Ysbryd a gobaith sydd i ni yng Nghrist. Ar ddechrau blwyddyn newydd ydym ni'n barod i dderbyn gwahoddiad graslon Iesu i'w wledd, neu ydym ni am barhau yn ystyfnig yn chwilio am friwsion o gysur ar wahân i'n Harglwydd?

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 2:34-40 (BCND tud.63 / BCN: tud.58)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 11^{eg} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 13^{eg} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng **Nghefn Meiriadog** am 7.30.
- Iau – 15^{fed} • **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 16^{eg} • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Sadwrn – 17^{eg} • **Diwrnod Dynion** yng Ngholeg y Bala.
- Sul nesaf – 18^{fed} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 11^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 13^{eg} Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 14^{eg} Cymdeithas Cefn Meiriadog – Sgwrs a Chân yng nghwmni Robot Arwyn am 7.00 yn festri Cefn Meiriadog. Bydd yn noson agored, felly croeso cynnes i bawb. Mynediad £3. Paned a chacen i ddilyn.
- Sul nesaf – 18^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 11^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth – 13^{eg} Cymdeithas Llansannan – Bydd Radio Cymru yn recordio Talwrn y Beirdd yn y **Ffestri** am 7.30.
- Iau – 15^{fed} Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 18^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Rhaghybys Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Eglwys Unedig Llansannan nos Lun, Ionawr 19eg am 7.30. Croeso i bob aelod.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 11^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Mawrth – 13^{eg} Bydd Cymdeithas Chwiorydd Groes, Peniel a Nantglyn yn cyfarfod yn y Groes am 7.30 pryd y bydd y wraig wadd, Eleri Jones, Trefnant, yn arddangos ei gwaith llaw.
- Sul nesaf – 18^{fed} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 11^{eg} Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa i'r daith yn **Saron am 10.00** (SYLWCH AR Y NEWID) a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Mawrth – 13^{eg} Bydd Cymdeithas Chwiorydd Groes, Peniel a Nantglyn yn cyfarfod yn y Groes am 7.30 pryd y bydd y wraig wadd, Eleri Jones, Trefnant, yn arddangos ei gwaith llaw.
- Sul nesaf – 18^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 11^{eg} Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Mawrth – 13^{eg} Bydd Cymdeithas Chwiorydd Groes, Peniel a Nantglyn yn cyfarfod yn y Groes am 7.30 pryd y bydd y wraig wadd, Eleri Jones, Trefnant, yn arddangos ei gwaith llaw.
- Mercher – 14^{eg} Bydd Cymdeithas Capel Henllan yn cyfarfod am 7.30 pryd y bydd Nerys Davies yn rhoi sgwrs am ei gyrfa fel nyrs yn y fyddin.
- Sul nesaf – 18^{fed} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 11^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 18^{fed} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.